| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cabinet** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **18 Chwefror 2014** |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol:** | **Y Cynghorydd Hugh Evans a'r Cynghorydd Huw L Jones** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Tom Booty, Rheolwr Datblygu Economaidd a Busnes** |
| **Teitl:** | **Cynlluniau Tref ac Ardal** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r cam nesaf yn natblygiad y Cynlluniau Tref ac Ardal, fel y cytunwyd gan y Cabinet yn 2013.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Cytunodd y Cabinet yn flaenorol y dylid ehangu Cynlluniau Tref i fod yn Gynlluniau Ardal yn ymgorffori cymunedau gwledig. Mae'r adroddiad hwn yn galluogi'r Cabinet i gymeradwyo ail gam y Cynlluniau Ardal newydd (Rhuthun a Phrestatyn) a chytuno ar y blaenoriaethau gwariant o gyllideb Arian Blaenoriaeth y Cynlluniau Tref ac Ardal. Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi diweddariad i'r Cabinet ar y gwariant hyd yma yn erbyn y Cynlluniau Tref ac Ardal.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Yr argymhellion yw bod y Cabinet yn:

1. Cymeradwyo mabwysiadu'r Cynlluniau Ardal (sy'n cynnwys y Cynlluniau Tref presennol) ar gyfer Rhuthun a Phrestatyn;
2. Cymeradwyo'r cyllid ar gyfer y blaenoriaethau a nodir yn y Cynlluniau Ardal a gyfeirir atynt uchod;

## 4. Manylion am yr Adroddiad

### 4.1 Cynllun Tref ac Ardal Rhuthun

Atodwyd Cynllun Tref ac Ardal Prestatyn fel Atodiad 1. Cymeradwywyd y Cynllun hwn gan Grŵp Aelodau Ardal Rhuthun ar 27 Ionawr, 2014, ac rydym rŵan yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i'r Cynllun a'r blaenoriaethau a'r ymrwymiadau ariannu cysylltiedig canlynol:

| Blaenoriaeth: | Gofyniad Ariannu: |
|---|---:|
| Gwelliannau i Neuadd Bentref Llanbedr | £8,400 |
| Gwelliannau i Gae Chwarae Llanarmon yn Iâl | £24,250 |
| Prosiect ar y Cyd Clawddnewydd | £40,000 |

| | |
|---|---|
| **CYFANSWM A OFYNNWYD AMDANO O GYLLIDEB Y CYNLLUN TREF** | **£72,650** |

D.S. Bydd pob prosiect yn amodol ar gadarnhad o arian cyfatebol.

### 4.2 Cynllun Tref ac Ardal Prestatyn

Atodwyd Cynllun Tref ac Ardal Prestatyn fel Atodiad 2. Cymeradwywyd y Cynllun hwn gan Grwpiau Aelodau Ardal Prestatyn ar 14 Tachwedd, 2013, ac rydym rŵan yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i'r Cynllun a'r blaenoriaethau a'r ymrwymiadau ariannu cysylltiedig canlynol:

| **Blaenoriaeth:** | **Gofyniad Ariannu:** |
|---|---|
| Sied Nwyddau Gallt Melyd | £50,000 |
| Ystafelloedd Newid Clwb Pêl-droed Gallt Melyd | £25,000 |
| Gwelliannau Amgylcheddol Ffordd Talargoch | £25,000 |
| **CYFANSWM A OFYNNWYD AMDANO O GYLLIDEB Y CYNLLUN TREF** | **£100,000** |

Bydd y dyraniadau hyn yn cael eu defnyddio i sicrhau'r cyllid cyfatebol sydd ei angen i gyflawni'r prosiectau. Er enghraifft, mae prosiect Sied Nwyddau Gallt Melyd yn ceisio sicrhau arian cyfatebol sylweddol gan Gronfa Treftadaeth y Loteri.

### 4.3 Gwariant hyd yma ar Gynlluniau Tref ac Ardal

Mae trafodaethau blaenorol y Cabinet ar y Cynlluniau Tref ac Ardal wedi arwain at beth ddryswch o ran yr arian sydd ar gael ar gyfer y Cynlluniau Tref ac Ardal. Mae aelodau hefyd wedi mynegi rhywfaint o bryder am y gyfradd araf o wariant. Mae'r adran ganlynol yn ceisio egluro'r sefyllfa bresennol.

Mae'r Tîm Gweithredol Corfforaethol hefyd wedi ystyried y sefyllfa ariannol bresennol ac wedi cytuno ar gynnal adolygiad o'r broses i gynorthwyo gyda phenderfynu ar y camau nesaf unwaith mae'r Cynlluniau Ardal terfynol wedi eu cymeradwyo gan y Cabinet ym mis Mawrth.

<u>Ffynhonnell Arian</u>
Mae'r tabl isod yn crynhoi'r dyraniadau cyllideb a wnaed gan Gyngor Sir Ddinbych er mwyn datblygu a chyflwyno Cynlluniau Tref ac Ardal:

**Tabl 1: Cyfanswm Cyllid ar gyfer Cynlluniau Tref ac Ardal (hyd at 31 Mawrth 2016):**

| | **Refeniw** | **Cyfalaf** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|
| Cyfalaf | | £680,000 | £680,000 |
| Tanwariant 2011/12 | £191,000 | | £191,000 |
| Cyllideb Refeniw 2012/13 | £356,000 | | £356,000 |
| Cyllideb Refeniw 2013/14 | £356,000 | | £356,000 |
| **Is-gyfanswm hyd at 31 Mawrth, 2014** | **£903,000** | **£680,000** | **£1,583,000** |
| | | | |
| Cyllideb Refeniw 2014/15 | £356,000 | | £356,000 |
| Cyllideb Refeniw 2015/16 | £356,000 | | £356,000 |
| **Cyfanswm** | **£1,615,000** | **£680,000** | **£2,295,000** |

Un o amcanion craidd proses y Cynlluniau Tref ac Ardal oedd gallu denu cyllid o ffynonellau eraill y tu allan i'r Cyngor. Mae llawer o waith y swyddogion sy'n cefnogi datblygiad y Cynlluniau wedi canolbwyntio ar ganfod a sicrhau cyllid cyfatebol ychwanegol ar gyfer prosiectau/mentrau'r Cynlluniau Tref ac Ardal.

Hyd yma, amcangyfrifir y bydd arian cyfatebol posib o £1.7 miliwn (yn amodol ar gyflwyno ceisiadau llwyddiannus ) ac mae rhai prosiectau mawr (fel y cynigion ar gyfer Amgueddfa yn Ninbych) angen swm sylweddol o'r arian cyfatebol yma.

Proffil gwariant hyd yma

Mae'r tabl isod yn amlinellu'r dyraniadau a wnaed hyd yma yn erbyn y gyllideb hyd at ddiwedd mis Mawrth 2014. Mae'r rhain yn cynnwys y dyraniadau arfaethedig ar gyfer blaenoriaethau ardaloedd Rhuthun a Phrestatyn a gynhwysir yn yr adroddiad hwn. Rhagwelir dyraniadau pellach pan fydd Cynlluniau Ardal Rhuddlan, Y Rhyl a Dinbych yn cael eu cyflwyno ym mis Mawrth:

**Tabl 2: Y Gyllideb bresennol yn erbyn Cyllideb y Cynlluniau Tref**

| | |
|---|---|
| Cyfanswm y dyraniad ariannol i Gynlluniau Tref ac Ardal hyd at 31 Mawrth 2014 | **£1,583,000** |
| Dyraniadau hyd yma | **£875,170** |
| Balans heb ei ddyrannu hyd at 31 Mawrth, 2014 | **£707,830** |

Mae dyraniadau wedi eu gwneud ar sail y blaenoriaethau Blwyddyn 1 ar gyfer adrannau Tref ac Ardal y Cynlluniau. Ar gyfer y blaenoriaethau Ardal, mae cyllid wedi ei ddyrannu ar gyfer y 3 blaenoriaeth gyntaf a gytunwyd gan bob Grwpiau Aelodau Ardal.

Gan fod y Cynlluniau Tref ac Ardal yn gysyniad cymharol newydd, roedd llawer o'r prosiectau a gynhwysir ynddynt angen gwaith paratoi a datblygu pellach, gwerthusiadau opsiynau neu geisiadau arian cyfatebol cyn y gallent symud ymlaen. Hefyd mewn rhai achosion mae Grwpiau Aelodau Ardal wedi ailddyrannu, neu yn y broses o ailddyrannu cyllid lle mae blaenoriaethau wedi newid neu le nad yw'r prosiectau a luniwyd yn wreiddiol yn hyfyw neu'n addas. O ganlyniad, bu llithriad yn y gyfradd gwariant ac mae'n annhebygol y bydd y dyraniadau a wneir yn cael eu gwario'n llawn cyn diwedd y flwyddyn ariannol. Mae'r gyfradd wariant yn gwella ac mae'n werth nodi bod y rhan fwyaf o'r prosiectau blaenoriaeth Blwyddyn 1 sy'n weddill wedi eu hamserlennu i ddechrau yn 2014/15.

**Tabl 3: Gwariant hyd yma ac Arian Cyfatebol**

| Tref: | Cynllun Tref a gymeradwywyd hyd yma | Gwariant hyd yma | Balans Cynllun Tref | Arian Cyfatebol hyd yma | Arian Cyfatebol a Ragwelir | Cyfanswm Arian Cyfatebol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Prestatyn** | £245,000 | £0 | £245,000 | £0 | £7,000 | £7,000 |
| **Llanelwy** | £84,800 | £8,420 | £76,380 | £0 | £283,500 | £283,500 |
| **Rhuddlan** | £47,000 | £1,726 | £45,274 | £700 | £21,300 | £22,000 |
| **Dinbych** | £135,800 | £50,000 | £85,800 | £0 | £561,200 | £561,200 |
| **Rhuthun** | £169,070 | £41,420 | £127,650 | £41,420 | £187,000 | £228,420 |
| **Corwen** | £95,000 | £25,426 | £69,574 | £18,426 | £52,500 | £70,926 |
| **Llangollen** | £98,500 | £50,000 | £48,500 | £3,000 | £501,000 | £504,000 |
| **Y Rhyl** | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 |
| **Bodelwyddan** | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 |
| **Cyfanswm** | **£875,170** | **£176,992** | **£698,178** | **£63,546** | **£1,613,500** | **£1,677,046** |

Mae dadansoddiad mwy manwl o'r ffigurau hyn ar gael yn Atodiad 3.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

**Blaenoriaeth – Datblygu'r Economi Lleol -** Bydd y Cynlluniau Tref ac Ardal yn ddogfennau creiddiol o ran y modd y darperir y flaenoriaeth hon ar lefel ardal, a bydd eu Cynlluniau Gweithredu cysylltiedig yn manylu ar y mecanweithiau cyflwyno i roi hwb i hyder a buddsoddiad y sector preifat a chreu cyfleoedd ar gyfer swyddi newydd a busnes.

**Blaenoriaeth - Gwella ein Ffyrdd -** bydd y cynlluniau'n helpu canfod meysydd lle mae problemau i sicrhau y caiff adnoddau eu cyfeirio at y lleoliadau cywir a bod gwelliannau i ffyrdd yn cael eu gwneud yn y mannau cywir.

**Blaenoriaeth - Strydoedd Glân a Thaclus**
Bydd y cynlluniau'n helpu nodi meysydd lle mae problemau i sicrhau y cyfeirir adnoddau at y lleoliadau cywir ac y gwneir gwelliannau i'r parth cyhoeddus yn y mannau cywir.

**Blaenoriaeth - Moderneiddio'r Cyngor i sicrhau arbedion effeithlonrwydd a gwella gwasanaethau i'n cwsmeriaid -** bydd y cynlluniau'n creu mecanwaith allweddol ar gyfer alinio adnoddau gwasanaethau'r Cyngor i gyflawni blaenoriaethau a nodwyd gan gymunedau lleol mewn ffordd effeithlon ac effeithiol.

## 6. Faint fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Mae'r Cynlluniau Tref ac Ardal yn nodi materion, camau gweithredu a blaenoriaethau a ddatblygwyd drwy ymgynghori â'r cymunedau hynny, a dylai fod yn ddogfen allweddol wrth ddylanwadu ar weithgareddau a blaenoriaethau holl Wasanaethau Sir Ddinbych.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd ar gyfer y penderfyniad?

Bydd Asesiadau o Effaith ar Gydraddoldeb unigol ar gyfer prosiectau neu weithgareddau penodol a nodir yn y Cynlluniau Tref ac Ardal yn cael eu cynnal ar yr adeg briodol.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi eu cynnal?

Datblygir Cynlluniau Tref ac Ardal mewn partneriaeth â'r Cyngor Tref neu Gymuned perthnasol. Cynhaliwyd ymgynghoriadau gyda Phenaethiaid Gwasanaeth CSDd, sefydliadau trydydd sector (drwy CGGSDd), trigolion a'r gymuned fusnes (drwy gynnal rhai cyfarfodydd wyneb yn wyneb a drwy arolygon ar y we).

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Mae'r gwariant bwriedig wedi'i gynnwys o fewn y dyraniadau cyllid presennol. Ni ddylai unrhyw brosiect cyfalaf ddechrau heb werthusiad priodol a dylid cynnal oblygiadau refeniw unrhyw brosiectau o fewn y cyllidebau presennol.

## 10. Beth yw'r risgiau ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Mae risg y bydd datblygu'r cynlluniau'n cynyddu disgwyliadau ac y gallai methiant i gyflawni niweidio enw da'r Cyngor ymysg Cynghorau Tref a Chymuned a budd-ddeiliaid eraill. Bydd hyn yn cael ei reoli drwy gyfranogiad a chyfathrebu parhaus gyda budd-ddeiliaid perthnasol ynglŷn â'r broses o ddatblygu a chyflwyno'r cynlluniau.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Adran 2 Deddf Llywodraeth Leol 2000

Adran 111 Deddf Llywodraeth Leol 1972